

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>06/12/22</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cyllideb Refeniw Rheoladwy 2022/23 – Perfformiad Ariannol</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Adrodd am Gyllideb Refeniw 2022/23 – sefyllfa go iawn tan ddiwedd mis Medi 2022 a'r sefyllfa ragolygol ar ddiwedd y flwyddyn</b>
	<b>Er Gwybodaeth</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael</b>

### 1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariad i'r Cabinet am berfformiad ariannol yr holl Wasanaethau mewn perthynas â Chyllideb Refeniw Rheoladwy 2022/23. Caiff Cyllidebau pob Gwasanaeth eu monitro a'u hadolygu yn rheolaidd mewn ffordd weithredol er mwyn asesu amseriad incwm a gwariant, yn ogystal â'r sefyllfa ragolygol ar ddiwedd y flwyddyn ac er mwyn sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd ble bynnag y bo modd a phan fo hynny'n briodol.

Ar yr adeg hon yn ystod y flwyddyn ariannol, rhagwelir y bydd y sefyllfa ragolygol ar ddiwedd y flwyddyn yn sefyllfa lle y caiff y gyllideb ei mantoli at ei gilydd. Fodd bynnag, ar ôl cytuno ar brif ddyfarniadau cyflog 2022/23 erbyn hyn, mae hyn, ynghyd â'r pwysau gan gostau chwyddiant, pwysau gan gostau gwasanaeth eraill ac effeithiau COVID cysylltiedig sy'n parhau, yn golygu bod her ariannol sylweddol yn bodoli. Felly, dim ond trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn lliniaru'r pwysau mewn meysydd penodol o ran y gost y mae'r sefyllfa o fantoli'r gyllideb yn cael ei sicrhau.

Bydd y rhan fwyaf o sialensiau ariannol eleni yn cael lle blaenllaw yn ystod y broses o Osod Cyllideb 2023/24 hefyd, gan bod llawer o'r pwysau sylfaenol ar gostau yn codi dro ar ôl tro.

### 2. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – EFFEITHIAU AR DRAWS Y CYNGOR

#### a) Dyfarniadau cyflog

Bellach, cytunwyd ar y prif Ddyfarniadau Cyflog ac fe'u gweithredir fel a ganlyn:

- Staff Llywodraeth Leol Eraill (gan gynnwys Prif Swyddogion ond heb gynnwys y Prif Weithredwr) – Mae cynnig Cenedlaethol y Cyflogwyr o godiad safonol o £1,925 ar gyfer pob gradd o fis Ebrill 2022 wedi cael ei dderbyn. Mae hyn yn cyfateb â gwahanol ganrannau ar gyfer pob gradd,

gyda'r uchaf yn 10.5% ar y radd isaf, sy'n codi'r gyfradd yr awr isaf i £10.50. Mae'r effaith gyffredinol yn cyfateb â chodiad o 7.5% i'r rhan hon o'r bil cyflogau.

- Athrawon – mae LIC wedi gweithredu argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Mae hwn yn godiad o 5% o fis Medi 2022 a chodiad pellach o 3.5% o fis Medi 2023 (sy'n destun adolygiad), a bydd cyflog cychwynnol Athrawon yn £30,000 o fis Medi 2023.

Cost gyfan gwbl y Dyfarniadau Cyflog hyn yw tua £6.2m, sydd ddwywaith yn uwch na'r ddarpariaeth yng Nghyllideb Wreiddiol 2022/23 sef £3.1m, ac mae'n newidyn allweddol yn y gyllideb. Ar ôl lwfio ar gyfer 5 mis o arbedion Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr o fis Tachwedd, y diffyg net yw £2.8m. Felly, gofynnwyd i'r holl Wasanaethau weithredu er mwyn delio â'u hagweddau unigol nhw o'r diffyg hwn. Disgwylir i fesurau sy'n cael eu gweithredu sicrhau ychydig dros 80% o'r diffyg, gan adael balans o tua £600,000, a adlewyrchir i bob pwrpas yn sefyllfaoedd rhagolygol unigol Gwasanaethau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mesurau yn cynnwys:

- Manteisio i'r eithaf ar fudd cyllid grant yn ystod y flwyddyn
- Effaith anffodus (ond buddiol o safbwynt ariannol) sy'n deillio o'r ffaith bod nifer gynyddol o swyddi yn wag oherwydd sialensiau recriwtio a chadw.
- Dyraniad Cyfalaf uwch a gynigir (£400,000) yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ac adlewyrchir hyn yn yr adroddiad Cabinet am y Rhaglen Gyfalaf ar yr un agenda hon.
- Defnydd tybiedig Balansau Ysgol Dirprwyedig i Ysgolion yn ôl yr angen.
- Defnyddio rhan o'r ennill Incwm Buddsoddi uwch o ganlyniad i'r ffaith bod cyfraddau llog yn codi.
- Defnyddio tanwariant Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae rhan fwyaf y mesurau sy'n cael eu cymryd yn rhai dros dro er mwyn lliniaru'r sefyllfa tan 31/03/23. Felly, bydd angen cynnwys effaith Dyfarniadau Cyflog 22/23 sy'n codi dro ar ôl tro yn y broses o osod Cyllideb 23/24 gan bod Gwasanaethau sy'n cynnwys cyfran fawr o staff ar raddau is (e.e. Arlwy, Glanhawyr, staff Gofal, Cynorthwywyr Dysgu) yn cael eu heffeithio mewn ffordd fwy arwyddocaol gan gost Dyfarniad Cyflog APT&C.

b) Pwysau Chwyddiannol

Gwelir lefelau uwch o bwysau chwyddiannol ar gostau o hyd mewn sawl Gwasanaeth, ac mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o'r prif fesur chwyddiant CPI, sydd bellach wedi cyrraedd 11.1% ar gyfer mis Hydref 2022. Felly, caiff sawl pwysau ar gostau eu lliniaru trwy ddefnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer Pwysau Chwyddiannol ac ar Gostau, a rhagamcanir y bydd ychydig dros £1m yn cael ei ddefnyddio yn ystod 22/23. Mae'r rhain yn cynnwys costau Tanwydd ar gyfer Fflyd y Cyngor (£215,000), Darnau ar gyfer Cerbydau (£35,000), chwyddiant yn y contract cludo Dysgwyr (£400,000) a chwyddiant yn y contract Ynni ar ôl 01/10/22 (£400,000).

c) Costau sy'n parhau ar ôl COVID

Gwellir yr effeithiau yn parhau mewn sawl maes yn dilyn COVID, felly ceir gwariant a hefyd, lefelau incwm is sy'n cael eu lliniaru dros dro eleni gan

ddarpariaeth y gyllideb COVID gorfforaethol. Roedd y broses o osod Cyllideb 22/23 wedi lwfio ar gyfer cyllideb o £2m, yr ariannwyd £1.25m ohoni gan gronfeydd wrth gefn. Mae'r prif feysydd sy'n cael eu heffeithio o hyd yn cynnwys Cyflenwi mewn Ysgolion a Chartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol, ynghyd â lefelau incwm is a welir mewn Canolfannau Lles a Gwastraff Masnachol, ac yn ôl amcanestyniadau presennol, disgwylir i'r gost gyfan gwbl fod tua £1.5m.

Nid yw Cronfa Caledi COVID LIC yn bodoli mwyach, ac eithrio'r un mecanweithiau a ddefnyddir i Awdurdodau Lleol gyflwyno hawliadau misol am gost darpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim yn ystod y gwyliau a Chynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf.

### **3. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – SEFYLLFA GWASANAETHAU**

Mae'r Trosglwyddiadau Cyllideb canlynol wedi digwydd yn ystod Chwarter 2, ac nid oes unrhyw rai o'r rhain yn cynnwys unrhyw newid i ddarpariaeth bresennol y gwasanaeth:

- Neilltuo'r targed arbed Milltiroedd o £243,000 yn y gyllideb Wreiddiol i lawr i wasanaethau unigol.
- Gweithredu'r trosglwyddiad o £300,000 y cytunodd y Cabinet arno yng Nghwarter 1 mewn perthynas â chodi'r targed ar gyfer Incwm Buddsoddi fel rhan o ddileu'r dybiaeth yng nghyllideb cyllid grant LIC o £1.0m.
- Neilltuo £248,000 er mwyn cynnig datrysiad cyllid mwy parhaol i'r tîm Cymorth Gwasanaethau Corfforaethol o fewn Gwasanaethau Democrataidd. Mae hyn yn canolbwyntio ar barhau'r buddsoddiad presennol sydd eisoes yn ei le, sy'n cynnwys y gweithgarwch o fath datrysiadau busnes a dadansoddol – adnodd hollbwysig er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i barhau i drawsnewid.

Ac eithrio lefelau Chwyddiant uwch a'r diffyg mewn rhai gwasanaethau mewn perthynas â Dyfarniadau Cyflog, gwelir sawl pwysau arall o fewn Gwasanaethau.

Yn arbennig, mae cost Lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir wedi codi er Chwarter 1 (a gyllidebwyd dan y Grŵp Arwain). Er Chwarter 1, bu gofyn trefnu 4 lleoliad pellach ac mae'r costau rhagamcanol wedi codi i orwariant o £1.6m, sy'n dod i lawr i £1.1 net ar ôl defnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer Cydraddoli Lleoliadau. Mae'r costau uwch yn y maes yn cadarnhau'r dull gweithredu a ddilynir er mwyn cyflymu dyfodiad darpariaeth yn y sir.

Porth Cynnal, sy'n cynnwys costau Gofal Cymdeithasol uchel eraill, yw'r prif faes arall lle y gwelir gorwariant arwyddocaol, a rhagamcanir y bydd y ffigwr hwn yn £1.3m, sy'n gynydd o ychydig dros £1.0m er Chwarter 1. Mae hyn yn cynnwys amrediad o ffactorau gan gynnwys costau uwch o ran Plant sy'n Derbyn Gofal, cynnydd yn nifer y lleoliadau Pobl Hŷn, y ffaith bod gofyn defnyddio mwy o staff asiantaeth a her wrth ariannu dyfarniad cyflog APT&C.

Mae ysgolion yn wynebu sialensiau hefyd wrth ddelio â'r diffygion oherwydd y Dyfarniad Cyflog, ac ar hyn o bryd, disgwylir y bydd Balansau Ysgol Dirprwyedig (sy'n uwch na lefelau arferol) yn haneru yn ôl pob tebyg o £8.3m i tua £4m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae rhan o hyn yn ymwneud â defnyddio grantiau COVID hefyd.

Gyda chyfraddau llog Banc Lloegr bellach yn 3%, a disgwylir iddynt godi ymhellach, mae hyn yn arwain at or-gyflawniad yng nghyllideb Incwm Buddsoddi o fewn Cyllid a Chaffael. Mae hyn, ynghyd ag arbedion yn y portffolio dyledion allanol, yn cynorthwyo

gyda'r sefyllfa gyffredinol yn ystod y flwyddyn, ac mae'n werth £700,000. Bydd hyn yn cynorthwyo ymhellach gyda Chyllideb 2023/24, ar yr amod nad yw balansau ariannol yn lleihau mewn ffordd rhy sylweddol. Yn ogystal â hyn, dan y Grŵp Arwain, mae cronfeydd wrth gefn blaenorol ar gyfer Cyflog (£830,000) ac Arbedion Trawsnewid (£1.0m) bellach wedi cael eu rhyddhau er mwyn cynorthwyo gyda'r sefyllfa ariannol gyffredinol.

Drosodd, dangosir dadansoddiad pellach o sefyllfa'r Gyllideb Reoladwy fesul Gwasanaeth:

Gwasanaeth	Cyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyllideb tan fis Medi 2022 £'000	Gwirioneddol tan fis Medi 2022 £'000	Amrywiant tan fis Mehefin 2022 £'000	Rhagolwg ar Ddiwedd y Flwyddyn Tan/ (gor) wariant £'000	Sylw
Cyswllt gyda Chwsmeriaid	6,150	2,882	2,509	373	189	Mae'r gwasanaeth yn disgwyl tanwario erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.
Gwasanaethau Democrataidd	4,628	2,468	2,448	20	(60)	Ar yr adeg hon yn ystod y flwyddyn, y prif her yw cost y dyfarniad cyflog o fewn Cymorth y Gwasanaeth Corfforaethol.
Yr Economi ac Adfywio	3,637	2,382	2,259	123	-	Er bod y gyllideb Twf a Menter yn cael budd ar hyn o bryd oherwydd swyddi gwag, wrth i'r swyddi hyn gael eu llenwi, bydd pwysau arall yn dod yn fwy amlwg. Mae'r sialsiau yn cynnwys diffyg yn y Gwasanaeth Cynllunio a'r galw ar gyfleusterau Cyhoeddus a chost deunyddiau. Mae prisiau ynni yn codi yn gyflymach na'r lefelau chwyddiant uwch sydd eisoes wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb.
Cyllid a Chaffael	18,800	13,342	12,612	730	1,000	Ceir rhagolwg o danwariant o £1.0m ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hyn o ganlyniad i'r codiad yn y cyfraddau llog ar gyfer buddsoddiadau a chynilion ar y gyllideb ariannu benthyciadau yn bennaf, a ddylai sicrhau arbediad cyfunol o £700,000.
Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	18,078	8,964	8,774	190	(210)	Mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau amrywiol ar gostau hanner ffordd drwy'r flwyddyn, gan arwain at orwariant rhagamcanol o £210,000. Mae hyn ar ôl lwfio ar gyfer pwysau chwyddiantol ar Danwydd a darnau Cerbydau yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn corfforaethol (amcangyfrif o £250,000), a'r un dull gweithredu ar gludiant Dysgwyr (£160,000) a defnyddio cyllid COVID corfforaethol i dalu am y diffyg mewn Incwm Gwastraff Masnachol (£185,000) dros dro.
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,566	769	743	26	(85)	Mae cynnydd mewn costau cyfreithiol sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn peri pryder i'r Gyllideb Gyfreithiol, a chaiff y sefyllfa ei monitro yn agos. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ystyriaeth bellach fel rhan o broses cyllideb 2023/24.
Pobl a Threfniadaeth	2,161	993	978	15	25	Ar yr adeg hon yn ystod y flwyddyn, ni nodwyd unrhyw feysydd sy'n peri problemau.
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,340	1,169	1,035	134	135	Ar yr adeg hon yn ystod y flwyddyn, ni nodwyd unrhyw feysydd sy'n peri problemau, a bu cyfuniad o swyddi gwag a chyllid ychwanegol ar ffurf grantiau.

Parhad.....

Gwasanaeth	Cyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyllideb tan fis Medi 2022 £'000	Gwirioneddol tan fis Medi 2022 £'000	Amrywiant tan fis Mehefin 2022 £'000	Rhagolwg ar Ddiwedd y Flwyddyn Tan/ (gor) wariant £'000	Sylw
<u>Gwasanaethau Gydol Oed Pyrth</u>						
Porth Cymorth Cynnar	4,355	3,139	3,269	(130)	(80)	Nid yw'r lefelau incwm yn y Canolfannau Lles wedi adfer i'r lefelau yr oeddent cyn COVID eto. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei effeithio yn arbennig o wael gan ddyfarniad cyflog APTC ac mae'n profi cynnydd yn y gost o gludo disgyblion. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant net o £80,000 ar draws y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
Porth Cynnal	28,602	14,446	15,089	(643)	(1,284)	Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £1.3m, ac mae hyn ar ôl tybio y bydd yn cael £1.166m o'r cronfeydd wrth gefn i wrthweithio costau asiantaeth uwch a chostau Lleoliadau Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu. Mae dyfarniad cyflog APTC wedi cael effaith niweidiol ar y rhagolwg. Mae'r gwasanaeth yn gyfnewidiol iawn ac mae'r rhagolwg hwn yn seiliedig ar ymrwymadau hysbys hyd yn hyn, a cheir nifer arwyddocaol o amrywiannau o fewn y gwasanaeth. Ar hyn o bryd, ceir sialensiau gweithredol mewn sawl maes, yn enwedig ynghylch staffio a llwythi achosion.
Porth Gofal	13,603	8,136	8,312	(176)	(318)	Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £318,000 erbyn diwedd y flwyddyn. Mae dyfarniad cyflog APTC wedi cael effaith niweidiol arwyddocaol ar y rhagolwg. Ar hyn o bryd, ceir sialensiau gweithredol mewn sawl maes, yn enwedig Cartrefi Preswyl a Gofal Cartref a'r ffaith bod staff asiantaeth yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag.
<b>Gwasanaethau Gydol Oed Pyrth</b>	<b>46,560</b>	25,721	26,670	(949)	<b>(1,682)</b>	
Ysgolion a Diwylliant	50,887	49,632	49,463	169	<b>(40)</b>	Roedd y Gwasanaeth wedi cael budd gan swyddi gwag yn ystod yr haf, ond bellach, mae'r rhan fwyaf o'r swyddi hyn wedi cael eu llenwi a theimlwyd effaith dyfarniadau cyflog ar draws y gwasanaeth. Mae'r prisiau cludiant disgyblion wedi codi mewn ffordd amlwg er mis Medi (gyda £100,000 yn cael ei neilltuo o gronfeydd wrth gefn corfforaethol) a bu newidiadau niweidiol o ran digolledu rhyng-awdurdod. Disgwylir i falansau Ysgol dirprwyedig ostwng yn sylweddol hefyd o'u lefel gyfredol sef £8.3m.

Grŵp Arwain	<b>6,981</b>	1,833	2,453	(620)		<b>700</b>	Y prif bryder yw pwysau arwyddocaol o ran y gost yng nghyllideb Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, ac mae gorwariant o tua £1.1m yn cael ei ragamcanu ar gyfer y flwyddyn ar hyn o bryd (ar ôl defnyddio cronfeydd wrth gefn). Dangosir tanwariant cyffredinol wrth i benawdau cyllideb eraill gael eu rhyddhau i gynorthwyo wrth ariannu hwn a phwysau ehangach eraill yn ystod y flwyddyn mewn ffordd gorfforaethol (e.e. effaith y dyfarniad Cyflog).
Ardollau, Premiwm Treth/G a Chronfeydd wrth Gefn	<b>4,055</b>	2,102	2,102	-		-	Ar yr adeg hon yn ystod y flwyddyn, ni nodwyd unrhyw feysydd lle y ceir problemau.
<b>Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy</b>	<b>165,843</b>	<b>112,257</b>	<b>112,046</b>	<b>211</b>		<b>(28)</b>	

#### **4. CYNLLUNIAU CENEDLAETHOL ERAILL SY'N GYSYLLTIEDIG Â LLC**

Llywodraeth Leol yw'r partner cyflawni gweithredol a ffafrir o hyd yn lleol ar gyfer sawl Cynllun cenedlaethol gan LIC, boed y rhain yn ymwneud â COVID, Costau Byw neu fel arall. Yn gyffredinol, ariannir y rhain yn llawn gan LIC ac mae'r rhai mwy arwyddocaol sy'n gweithredu yn ystod 2022/23 fel a ganlyn:

Rhyddhad Ardrethi o 50% NNDR ar gyfer y sectorau Hamdden, Manwerthu a Lletygarwch	Dyfarwyd tua £2.3m ar ffurf rhyddhad NNDR i fusnesau cymwys ar gyfer 2022/23
Cynllun Cymorth Hunanynysu	Taliadau cronol o £1.128m – mae'r Cynllun wedi cau.
Cynllun ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol i Weithwyr Gofal ar gyfer Cyflogwyr	Taliadau cronol o £94,000 – mae'r Cynllun wedi cael ei gwblhau
Taliad o £1,498 i Ofalwyr	Taliadau cronol o £2.476m – mae'r Cynllun wedi cael ei gwblhau.
Cynllun Gofalwyr Di-dâl o £500	Talwyd gwerth £352,000 ar ffurf grantiau – mae'r Cynllun wedi cael ei gwblhau.
Cynllun Costau Byw o £150	Taliadau cronol o £2.792m dan y Prif gynllun – mae'r Cynllun bellach wedi cau. Taliadau cronol o £399,000 (BACS a Thalebau Swyddfa Post) hyd yn hyn dan Gam 1 y cynllun Dewisol.
Cynllun Taliad Tanwydd Gaeaf o £200	Taliadau cronol o £1.048m hyd yn hyn. Mae'r cynllun ar agor tan 5pm ar 28/02/23.

Yn ychwanegol i'r rhain, mae cynlluniau / grantiau amrywiol eraill sy'n gysylltiedig â COVID yn cael eu cynorthwyo ac yn cael adnoddau. Mae hyn yn cynnwys Profi, Orlhain a Diogelu (Orlhain Cysylltiadau), Canolfan Frechu Trewen a Chyllid Brys ar gyfer Bysiau. Yn ogystal, rhoddwyd mewnbwn a chymorth sylweddol tuag at y cynlluniau sydd mewn grym i gefnogi'r rhaglenni amrywiol ar gyfer Ffoaduriaid o Wcráin.

#### **5. CASGLIAD**

Mae'r sialensiau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn ystod 22/23 yn arwyddocaol ac yn sylweddol. Mae hyn hefyd yn digwydd yn ystod cyfnod lle y mae'r DU gyfan yn wynebu sialensiau economaidd cenedlaethol ehangach. Fodd bynnag, nid yw Ceredigion ar ei phen ei hun ac mae'r holl Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yn wynebu sialensiau tebyg.

Mae gan y Cyngor fantolen gadarn ac mae ei sefyllfa ariannol yn gydnerth, ond mae'r rhagolygon cyfredol bellach yn cyfeirio at duedd ar i lawr ar lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi er mwyn lliniaru'r sefyllfa dros dro mewn sawl maes yn ystod 22/23. Rheolir y sefyllfa hon yn ofalus ac mae'n rhan o ddull gweithredu yn ystod y flwyddyn sy'n cydnabod bod lefelau Cronfeydd wrth gefn wedi codi dros y 2 flynedd ddiwethaf, ond y bydd yna yn mynnu ystyriaeth sylfaenol yn y gyllideb o'r pwysau gan gostau sy'n codi dro ar ôl tro fel rhan o Broses Cyllideb 23/24.



Yn ogystal, ceir achos clir dros yr angen am lefelau cyllid craidd uwch gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid cyfartalog dangosol blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 23/24, sef tua 3.5%, lawer yn is na lefelau presennol y pwysau o ran costau, sydd tua 12% o'r Gyllideb net ar hyn o bryd, felly bydd hyn yn arwain at doriad mewn termau real. Felly, mae'r gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar broses Cyllideb 23/24.

<b>A gwblhawyd Asesiad o'r Effaith Integredig?</b>	Naddo
<b>Os na, nodwch pam ddim</b>	Mae'r adroddiad er gwybodaeth
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Crynodeb:</b> <b>Hirdymor:</b> Amherthnasol <b>Integreiddio:</b> Amherthnasol <b>Cydweithio:</b> Amherthnasol <b>Cynnwys:</b> Amherthnasol <b>Atal:</b> Amherthnasol
<b>Argymhelliad(argymhellion):</b>	Nodi'r sefyllfa gyffredinol o ran Refeniw a amlinellir yn yr adroddiad.
<b>Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn sicrhau sefyllfa ariannol gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Ystyriwyd yn ystod y broses o osod y Gyllideb
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol:</b>	Mae'r Gyllideb yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor
<b>Goblygiadau Ariannol a Chaffael:</b>	Nodwyd yn yr adroddiad
<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Rhan o rôl a chyfrifoldeb y swyddog Adran 151 er mwyn gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn gywir dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Mae lefelau uwch Dyfarniadau Cyflog, yn enwedig os bydd hyn yn para dros flwyddyn, yn cyflwyno risg posibl y bydd angen adolygu blaenoriaethau'r Cyngor a blaenoriaethau Gwasanaeth, yn enwedig os na fydd lefelau cyllid cyfatebol yn dod wrth LIC.
<b>Goblygiadau Eiddo / Asedau:</b>	Amherthnasol
<b>Risg(iau):</b>	Risg cyllid annigonol os bydd gorwariant arwyddocaol. Bellach, ceir tebygolrwydd uchel y bydd proses Cyllideb 2023/24 yn eithriadol o heriol. Mae'r Cyngor eisoes wedi codi'r sgôr risg ariannol yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.

**Papurau Cefndir:**

Cyllideb Refeniw 2022/23

**Atodiadau:**

Atodiad A: Cyswllt gyda Chwsmeriaid  
Atodiad B: Gwasanaethau Democrataidd  
Atodiad C: Yr Economi ac Adfywio  
Atodiad D: Cyllid a Chaffael  
Atodiad E: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol  
Atodiad F: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu  
Atodiad G: Pobl a Threfniadaeth  
Atodiad H: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd  
Atodiad I: Porth Cymorth Cynnar  
Atodiad J: Porth Cynnal  
Atodiad K: Porth Gofal  
Atodiad L: Ysgolion a Diwylliant  
Atodiad M: Grŵp Arwain  
Atodiad N: Ardollau, Premiwm Treth Gyngor a Chronfeydd wrth Gefn

**Swyddog Arweiniol  
Corfforaethol:**

Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Swyddogion Adrodd:**

Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael a Justin Davies, Rheolwyr Corfforaethol: Cyllid Craidd

**Dyddiad:**

21/11/22

**Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Medi 2022 / Budget Forecast Report September 2022****Cyswilt Cwsmeriaid / Customer Contact****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Arwyn Morris****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn tanwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

It is expected by the service to underspend by the end of the 2022/23 financial year.

**2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION**

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Medi 2022 Budget to September 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Medi 2022 Actuals to September 2022 £'000	Amrywiant hyd at Medi 2022 Variance to September 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U ) Level of risk (L, M or H)
TGCh / ICT	3,713	1,654	1,383	271	75	Mae disgwyl i'r adran yma tanwario oherwydd costau staff. This area is expected to underspend due to staff cost.	I / L
Gwasanaethau Cwsmeriaid / Customer Services	1,365	683	622	61	33	Mae disgwyl i'r adran yma tanwario oherwydd costau staff. This area is expected to underspend due to staff cost.	I / L
Gwasanaethau Cymunedol / Community Services	968	493	452	41	81	Mae incwm Cofrestryddion yn uwch na'r disgwyl. The income in Registrars is higher than expected.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	104	52	52	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>6,150</b>	<b>2,882</b>	<b>2,509</b>	<b>373</b>	<b>189</b>		

**Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Medi 2022 / Budget Forecast Report September 2022****Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Lowri Edwards****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, y brif her yw cost y dyfarniad cyflog o fewn y Tîm Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau.

At this stage in the year the main challenge is the payaward cost within the Corporate Service Support.

**2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION**

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Medi 2022 Budget to September 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Medi 2022 Actuals to September 2022 £'000	Amrywiant hyd at Medi 2022 Variance to September 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U ) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services	1,963	1,161	1,115	46	25	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau / Corporate Service Support	2,250	1,000	1,038	(38)	(100)	Nid oes dim materion sylweddol eraill wedi'u nodi ar wahân i effaith y dyfarniad cyflog. There are no significant issues identified, other than the impact of the Payaward.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	415	307	295	12	15	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>4,628</b>	<b>2,468</b>	<b>2,448</b>	<b>20</b>	<b>(60)</b>		

**Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Medi 2022 / Budget Forecast Report September 2022****Economi ac Adfywio / Economy and Regeneration****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer: Russell Hughes-Pickering****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Er bod cyllideb Twf a Menter yn elwa o swyddi gwag ar hyn o bryd, wrth i'r swyddi hyn cael eu llenwi amlygir pwysau eraill o fewn y gwasanaeth. Mae'r heriau yn cynnwys diffyg incwm yn y Gwasanaeth Cynllunio, y galw ar gyfleusterau cyhoeddus a chostau deunyddiau. Mae prisiau ynni yn codi tu hwnt i'r chwyddiant mawr sydd eisoes wedi'i rhoi yn y gyllideb.

Although the Growth & Enterprise budget is currently benefiting from vacant posts, as these posts are filled other pressures will become more obvious. The challenges include income shortfalls in the Planning Service and the demand on Public conveniences and the cost of materials. Energy prices are rising faster than the higher levels of inflation already built into the budget.

**2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION**

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Medi 2022 Budget to September 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Medi 2022 Actuals to September 2022 £'000	Amrywiant hyd at Medi 2022 Variance to September 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Eiddo / Property Services	2,761	1,864	1,779	85	(10)	Collir incwm rhent yn y swyddfeydd. Bydd costau ynni yn cynyddu yn fawr o mis Hydref. Rental income is not being received for the offices. Energy prices have risen considerably from October.	C / M
Twf a Menter / Growth & Enterprise	630	411	313	98	75	Nid oes yr un maes yn peri problem ar hyn bryd o hyn. Mae'r rhagolygon yn adlewyrchu'r budd a geir o swyddi gwag. There are no problem areas identified at present, the forecast reflects the benefit from vacant posts.	I / L
Gwasanaethau Cynllunio / Planning Services	183	78	116	(38)	(65)	Mae'r incwm a geir o'r ffoedd cynllunio ar hyn o bryd oddeutu £90k yn llai na'r gyllideb broffil ar gyfer Chwarter 2. Serch hynny, gwneir yn iawn am hyn yn rhannol drwy'r arbedion a ddaw o swyddi gwag. Mae rhai elfennau o'r gwaith cynllunio yn cael ei wneud yn allanol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol neu ddiffyg o ran incwm cynllunio yn cael eu hariannu gan gyllid wrth gefn. Planning income is currently below the budget profile by c£90k for Q2, although this is partly being covered by vacant posts savings. Certain Planning work has also been outsourced. Any additional costs or Planning income shortfall will be covered by reserve funding.	U / H
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	63	29	51	(22)	-	Mae hyn yn cynnwys ffactor swyddi gwag ar draws y gwasanaeth cyfan, sy'n cael ei ariannu gan y Gwasanaeth Twf a Menter. This contains a vacancy factor for the whole service, which is being covered by the Growth & Enterprise service.	I / L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>3,637</b>	<b>2,382</b>	<b>2,259</b>	<b>123</b>	<b>-</b>		

**Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Medi 2022 / Budget Forecast Report September 2022****Cyllid a Chaffael / Finance and Procurement****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Duncan Hall****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Rhagwelir tanwariant o £1.0m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a'r arbedion a geir yn y gyllideb o ran cyllido benthyciadau. Dylai'r ddwy elfen hon gyda'i gilydd arwain at arbediad o £700k.

An underspend of £1.0m is forecast to year end, due mainly to the increase in the interest rates for investments and savings on the loans financing budget which should generate a combined saving of £700k.

**2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION**

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Medi 2022 Budget to September 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Medi 2022 Actuals to September 2022 £'000	Amrywiant hyd at Medi 2022 Variance to September 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U ) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael / Finance & Procurement Service	3,354	1,553	1,405	148	200	Mae'r tanwariant yn ymwneud â swyddi gwag a chyllid ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Underspends relating to staff vacancies and additional funding from DWP	I / L
Budd-daliadau Tai a Chynllun Cymorth Treth y Cyngor / Housing Benefits and Council Tax Support Scheme	6,287	6,287	6,079	208	100	Mae'r tanwariant a ragwelir yn ymwneud â Chynllun Cymorth Treth y Cyngor. The forecast underspend relates to the Council Tax Support Scheme	C / M
Yswiriant, Terfynu a Chostau Corfforaethol Eraill / Insurance, Termination & Other Corporate Costs	1,746	1,188	1,135	53	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Cyfrif Cyfalaf Corfforaethol / Corporate Capital Account	7,413	4,314	3,993	321	700	Rydym yn derbyn llog ychwanegol o'r buddsoddiadau oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog. Hefyd, rydym yn talu llai ar fenthyciadau na'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer. There is further additional interest being generated on investments due to the increase in interest rates. In addition there are lower payments on loans than budgetted.	C / M
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>18,800</b>	<b>13,342</b>	<b>12,612</b>	<b>730</b>	<b>1,000</b>		

**Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Medi 2022 / Budget Forecast Report September 2022****Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol / Highways and Environmental Services****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Rhodri Llwyd****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau cost amrywiol yn ystod yr hanner blwyddyn yma, gan arwain at orwariant rhagamcanol o £210k. Mae hyn ar ol gwneud lwfans ar gyfer chwyddiant ar Tanwydd a rannau Cerbydau sy'n cael eu hariannu o'r cronfeydd corfforaethol (amcangyfrif o £250k), a'r un dull ar gyfer trafnidiaeth i Ddysgwyr (£160k), yn oghystal a'r defnydd o gyllid corfforaethol COVID i dalu am ddiffygion dros dro mewn Incwm Gwastraff Masnach (£185k).

The Service continues to face various cost pressures at this half year stage, leading to a projected overspend of £210k. This is after making allowance for inflationary pressures on Fuel & Vehicle parts being funded from corporate reserves (£250k estimate), and the same approach on Learner transport (£160k), plus the use of corporate COVID funding to temporarily cover shortfalls in Trade Waste Income (£185k).

**2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION**

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Medi 2022 Budget to September 2022 £'000	Gwir variant hyd at Medi 2022 Actuals to September 2022 £'000	Amrywiant hyd at Medi 2022 Variance to September 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Casglu a Gwaredu Gwastraff / Waste Collection & Disposal	5,108	2,365	2,335	30	25	Pwysau incwm masnach i'w gael ei ariannu o Grofeydd Corfforaethol. Pressure from lower trade income is to be funded from Corporate Reserves	I/L
Parciau a gerddi, Glanhau Prifffyrdd, Gwasanaethau Parcio, Harbwrws / Parks & Gardens, Highways Cleaning, Parking Services, Harbours	-	(112)	(69)	(43)	(115)	Pwysau incwm is o'r Gwasanaethau Parcio. Pressure from lower Parking Services income.	C/M
Cludiant Teithwyr Corfforaethol, Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth / Corporate Passenger Transport, Transport Maintenance Unit	6,579	3,053	2,996	57	-	Mae pwysau costau cynyddol rhagamcanol yn sgil trafnidiaeth, rhannau cerbydau a thanwydd, i'w ariannu o'r cronfeydd corfforaethol. The projected Increased cost pressures from transport, vehicle spraes and fuel is to be funded from corporate reserves.	C/M
Cynnal a Chadw Prifffyrdd, Caffael a Strategaeth, Peirianeg Arfordirol a Gwaith Draenio Tir / Highways Maintenance, Coastal Engineering & Land Drainage Procurement & Strategy	5,153	2,936	2,949	(13)	(120)	Ceir pwysau oherwydd bod llai o incwm yn dod o'r prosiectau cyfalaf a cheffnydd. Mae hyn ar ôl tybio y gellir cyfalafu £400k o'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r Prifffyrdd er mwyn ariannu'r pwysau o ran costau yn sgil y dyfarniad cyflog. Pressure from lower Trunk Road and capital projects income. This is after assuming £400k of Highways related expenditure can be capitalised in order to fund payaward cost pressures.	C/M
Gwasanaethau Prifffyrdd, Diogelwch y Ffordd, Rheoli Trafnidiaeth Rhanbarthol / Highways Services, Road Safety, Regional Transport Management	656	322	219	104	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	582	400	343	56	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>18,078</b>	<b>8,964</b>	<b>8,774</b>	<b>190</b>	<b>(210)</b>		

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Medi 2022 / Budget Forecast Report September 2022

Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Legal &amp; Governance Services

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Elin Prysor

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae cynnydd yng ngostau cyfreithiol gofal cwmdeithasol yn achosi pryder I'r gyllideb gyfreithiol, ceir y sefyllfa ei monitro yn agos. Mae'n bosib y bydd angen ac ystyriaeth bellach fel rhan o osod cyllideb 2023/24.

An increase in Social Care related legal costs is causing concern for the Legal Budget, the situation is being closely monitored. This may require further consideration as part of the 2023/24 budget process.

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

